# Cydweithio i addasu i hinsawdd sy'n newid: llifogydd a'r arfordir - crynodeb

## Rhaglen Ymchwil Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Dyddiad: Ionawr 2023

Prosiect: FRS17192

**Nod y prosiect ymchwil hwn oedd archwilio sut y gall awdurdodau weithio gyda chymunedau ar y broses o gynllunio a gwneud penderfyniadau yn y dyfodol i helpu i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn wyneb newid yn yr hinsawdd.**

**Bydd hyn o ddiddordeb i unrhyw un sydd eisiau gwybod mwy am sut y gall awdurdodau, cymunedau a phartneriaid gyfnewid barn, meithrin dealltwriaeth a chynllunio gyda'i gilydd. Bydd yr offer a'r wybodaeth yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer staff ymgysylltu mewn awdurdodau rheoli risg.**

**Cefndir**
Mae'r gwaith ymchwil hwn yn ymateb i bryderon am effeithiau newid hinsawdd a'r tebygolrwydd o lefelau sylweddol uwch o risg i gymunedau oherwydd mwy o lifogydd neu erydu arfordirol.

**Dull Gweithredu**
Roedd y prosiect ymchwil yn cynnwys tri cham:

1. adolygiad o dystiolaeth ar ymgysylltu â chymunedau ynghylch addasu i'r hinsawdd i lywio'r gwaith o:
2. ddylunio a gweithredu rhaglen ymgysylltu gymunedol arloesol mewn dau leoliad peilot:
    - Caterham on the Hill ac Old Coulsdon, Surrey a Bwrdeistref Croydon yn Llundain (llifogydd dŵr wyneb)
    - Hemsby, Norfolk (erydu arfordirol ac ymchwyddiadau storm)
3. dod â chanfyddiadau ac ymarfer ynghyd, myfyrio arnynt a'u dogfennu

**Canfyddiadau**
Cyflwynir canfyddiadau cyffredinol yn adroddiad canfyddiadau'r prosiect, sy'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r adolygiad cychwynnol o dystiolaeth. Maent wedi'u grwpio o dan chwe 'her ymgysylltu':

1. parodrwydd: y wybodaeth, y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i allu gwneud penderfyniadau FCERM ar y cyd;
2. mynegiant, iaith a chyfathrebu: y ffordd y mae pobl a sefydliadau yn siarad am bethau, sy'n dylanwadu ar sut mae eraill yn deall materion;
3. newid yn yr hinsawdd, emosiynau ac iechyd meddwl: yr ofnau a'r pryderon sy'n llywio ymgysylltiad pobl â chynlluniau addasu;
4. ymlyniad â lle, diwylliant a hunaniaeth: cysylltiadau emosiynol â lleoedd sy'n effeithio ar sut mae pobl yn meddwl am ddyfodol y lleoedd hynny.
5. pŵer, gwleidyddiaeth a gwrthdaro: cydnabod bod prosesau ymgysylltu ac addasu yn gynhenid wleidyddol ac yn gallu achosi cynnen;
6. graddfa: mae pobl a sefydliadau yn gweithio ar wahanol raddfeydd daearyddol ac amserol, a all greu tensiynau gyda gwahanol flaenoriaethau.

Thema gyffredinol bwysig yw gwerth cydweithio rhwng rhanddeiliaid, a oedd yn rhan annatod o'r prosiect.

Cafodd offer ymgysylltu eu creu a'u treialu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn. Mae'r offeryn asesu parodrwydd wedi'i gynllunio i asesu pa mor barod yw unigolion, awdurdodau, partneriaethau a chymunedau i ymgysylltu mewn perthynas ag addasu i'r hinsawdd. Mae'r efelychiad yn adnodd cyfranogol i helpu i gynyddu dealltwriaeth a gwella gwaith cynllunio ar gyfer perygl llifogydd ac addasu i'r hinsawdd ymhlith rhanddeiliaid. Mae'r ymarfer

datblygu senarios wedi'i gynllunio i ddod â rhanddeiliaid ynghyd i ragweld senarios posib ar gyfer y dyfodol a chynllunio ymgysylltiad.

Mae'r canfyddiadau eisoes yn cael eu defnyddio yn y:

- Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar gyfer Lloegr
- Rhaglen Arloesi Gwydnwch Llifogydd ac Erydu Arfordirol
- Rhaglen Llwybr Addasu
- Rhaglen Sbarduno Trawsnewid Arfordirol
- Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Mae'r crynodeb hwn yn ymwneud â gwybodaeth o brosiect FRS17192, a cheir manylion yn yr allbynnau canlynol:

**Adroddiad:** FRS17192/1
**Teitl:** Adolygiad o ganfyddiadau'r prosiect

**Sleidiau crynhoi:** FRS17192/2
**Teitl:** Crynodeb o ymchwil ac offer

**Adroddiad:** FRS17192/3
**Teitl:** Cofnod o ymgysylltiad

**Adroddiad:** FRS17192/4
**Teitl:** Datblygu offer ar gyfer asesu parodrwydd: adolygiad o'r canfyddiadau

**Offeryn ymgysylltu:** FRS17192/5
**Teitl:** Asesu parodrwydd: offer a thechnegau

**Adroddiad:** FRS17192/6
**Teitl:** Datblygu efelychiad: adolygiad o'r canfyddiadau

**Offeryn ymgysylltu:** FRS17192/7
**Teitl:** Rhedeg efelychiad: offer a thechnegau

**Adroddiad:** FRS17192/8
**Teitl:** Defnyddio senarios y dyfodol i lywio cynlluniau ymgysylltu

**Ionawr 2023**

**Rheolwr y Prosiect:** Kate Kipling, tîm Ymchwil Llifogydd

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Gyfarwyddiaeth FCRM Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o'r Cyd-raglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Gwefan: [Rhaglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol]

E-bost: fcerm.evidence@environment-agency.gov.uk.

Ymholiadau: enquiries@environment-agency.gov.uk.

© Asiantaeth yr Amgylchedd